

# Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg

2021-2022



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board



## Cynnwys

Rhagair.....	4
Crynodeb Gweithredol.....	5
Cefndir.....	6
Adolygu 2021-22.....	6
Trosolwg.....	6
Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg.....	7
Rhwydweithiau Staff Cymraeg.....	7
Codi ymwybyddiaeth a Digwyddiadau.....	7
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(ALNET).....	8
Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.....	8
Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg.....	8
Cyfieithu Swydd Ddisgrifiadau.....	9
Gwella Capasiti Dwyieithrwydd.....	9
Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP (Safon 116).....	9
Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.....	10
Pryderon a Chwynion (Safon 115).....	25
Symud Ymlaen.....	26

## Rhagair

Dyma Adroddiad Blynyddol 2021-2022 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys sy'n canolbwyntio ar ein llwyddiannau yn erbyn Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Mae wedi bod yn flwyddyn anodd i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac i GIG Cymru gyfan. Yn sgil Pandemig Covid-19 parhaus, bu'n flwyddyn o'r rhestrau aros uchaf erioed, absenoldebau staff uchel iawn oherwydd salwch ac ynysu, nifer uchaf erioed o staff clinigol yn gadael y proffesiwn ac anhawster wrth lenwi swyddi gwag. Roedd amrywiolyn Omicron a ymddangosodd ym mis Tachwedd 2021 yn gyfnod arbennig o anodd, ac er ymddangoswyd yn y gymdeithas ehangach bod y pandemig yn ei gamau olaf, neu hyd yn oed 'drosodd', ni adlewyrchwyd ar brofiad staff y GIG, sy'n parhau i weithredu dan bwysau digynsail.

Nid yw gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg wedi bod yn ddiogel rhag y pwysau hyn, gyda staff cydymffurfio'r Gymraeg yn cael eu hadleoli i gefnogi ymateb i'r pandemig, gofynion staffio a hyd yn oed y gofyniad i gyflenwi isafswm sifftiau. Mae hyn wedi lleihau gallu staff i fynychu hyfforddiant, neilltuo amser i adolygu gwasanaethau neu newid y system. Rhwystrodd hyn ein hymdrechion i fynd i'r afael â lefelau sgiliau dwyieithog o fewn y bwrdd iechyd. Wrth i ni drosglwyddo i'r broses adfer ac ailosod ein gwasanaethau, byddwn yn sicrhau bod hyn yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Gan gydnabod bod y cyd-destun hwn wedi effeithio ar ein cynnydd gyda chydymffurfio â rhai o'r safonau, mae'r bwrdd iechyd wedi cynyddu adnodd y swyddogaeth, gan benodi ail aelod o staff, yn ogystal â chyfieithydd Cymraeg mewnol am y tro cyntaf. Mae hyn yn barod wedi ffynnu, gyda staff yn bwydo ymatebion cadarnhaol yn ôl, a chynnydd yn y defnydd o'r gwasanaeth cyfieithu. Rydym hefyd wedi bwrw ymlaen a sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio'n llwyr â'r safonau gweithredu.

Er y cydnabyddir efallai nad yw cynnydd mewn rhai meysydd wedi adlewyrchu ein huchelgeisiau cychwynnol, rydym yn parhau i fod yn falch o'n llwyddiannau yn y cyd-destun anodd iawn hwn, ac yn credu bod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ac wrth dyfu BIAP fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

### Claire Madsen

Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd ac Arweinydd Gweithredol dros y Gymraeg a Chydraddoldeb

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan BIAP i weithredu Safonau'r Gymraeg fel y nodwyd yn yr hysbysiad cydymffurfio. Cyfeirir at ddyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu adroddiad blynyddol o'n cynnydd yn erbyn Safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y paratowyd yn unol â Safon y Gymraeg 120.

Mae'r adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed trwy gydol 2021-2022 a'r cyflawniadau nodedig a fydd yn gwella ein gallu i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn ddwyieithog wrth i wasanaethau barhau yn dilyn y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a wnaed yn y meysydd canlynol:

- Tra bod trosiant staff wedi bod o fewn swyddogaeth y Gymraeg a Chydraddoldeb y bwrdd iechyd rydym wedi buddsoddi i ehangu'r swyddogaeth trwy benodi Swyddog Cydraddoldeb a'r Gymraeg newydd;
- Gwaith i hyrwyddo gweithdrefnau asesu effaith ar y Gymraeg ar gyfer penderfyniadau strategol megis polisi, datblygu gwasanaethau a/neu ailgynllunio fel rhan o'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ehangach, gan gynnwys hyfforddiant ar asesu polisiâu am yr effaith ar y Gymraeg;
- Sefydlu rhwydweithiau staff newydd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, ac ailddechrau Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg (yn dilyn toriad oherwydd Covid-19) i rannu arferion da;
- Parhau i hyrwyddo'r sgwrs o amgylch digwyddiadau cenedlaethol megis Diwrnod Mae Gen i Hawl a digwyddiadau staff fel Cwis Dwyieithog ar Ddydd Gŵyl Dewi a sgysiau Wythnos Cymraeg a Chydraddoldeb BIPAB.

Ar y cyfan, mae'r bwrdd iechyd yn cadw lefel uchel o gydymffurfiaeth â'r Safonau, gyda systemau yn eu lle i sicrhau bod y rhan fwyaf o'r safonau'n cael eu bodloni yn y mwyafrif o amgylchiadau. Gwnaed cynnydd eleni ar nifer o'r safonau sy'n berthnasol yn fewnol, megis:

- cynnig meddalwedd Cymraeg i staff.
- datblygu meysydd megis Cyfathrebu a'r cyfryngau cymdeithasol.
- sicrhau bod holl swydd ddisgrifiadau yn gwbl ddwyieithog

Bu'r camau gweithredu hyn yn bwysig er mwyn gosod y naws i'n sefydliad yn fewnol ac yn allanol, ac wrth hyrwyddo'r dealltwriaeth bod y sefydliad yn wirioneddol dwyieithog ymhlith staff cyfredol a darpar staff.

Fodd bynnag, gwyddom fod gennym feysydd lle gallwn wella. Mae pob cwyn a dderbyniwyd ynglŷn â'r safonau yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi bod mewn perthynas â gweithgaredd dros dro sy'n gysylltiedig â Covid-19, e.e. clinigau brechu, yn hytrach na'n gwasanaethau rheolaidd. Mae'r rhain yn cynrychioli cyfran fechan iawn o'i gymharu â nifer o ryngweithio â chleifion mae'r gwasanaethau hyn yn cynnal. Rydym hefyd yn ymwybodol nad ydyn wedi perfformio cystal wrth sicrhau cynnydd o ran datblygu sgiliau dwyieithog ein gweithlu, yn enwedig o ran recriwtio.

Ceir mwy o wybodaeth am yr uchod, ochr yn ochr â chyfrif manwl o gydymffurfiaeth y bwrdd iechyd yn erbyn pob un o'r Safonau yn adran Materion sy'n Codi yn yr adroddiad hwn.

---

## Cefndir

Rhaid i'r bwrdd iechyd, a phob corff y GIG yng Nghymru, gydymffurfio â chyfres o Safonau fel yr amlinellir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.

Er mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r safonau, y Comisiynydd sydd i benderfynu pa safonau sy'n gymwys i gorff penodol. Ym mis Tachwedd 2018, cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio i'r bwrdd iechyd a oedd yn amlinellu'r safonau sydd rhaid cydymffurfio â nhw, a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid iddo gydymffurfio. Mae copi o hysbysiad cydymffurfio BIAP ar gael [yma](#).

Fel rhan o'r Safonau hyn mae gofyniad i BIAP fonitro gweithrediad y Safonau a llunio Adroddiad Blynyddol (y ddogfen hon) sy'n rhoi manylion am sut mae'r bwrdd iechyd wedi cydymffurfio â'r Safonau.

O ran gweithredu a llywodraethu, rhaid i bob aelod o staff dwyn cyfrifoldeb o weithredu'r Safonau ar draws y bwrdd iechyd. Mae Arweinwyr y Gwasanaethau'n monitro cydymffurfiaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain ac yn adrodd cynnydd i Reolwr Gwella Gwasanaethau'r Gymraeg a fydd yn cynghori ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau yn unol â hynny. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd Rheolwr Gwella Gwasanaeth y Gymraeg yn drafftio adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i Arweinydd Gweithredol y Gymraeg. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith a Phwyllgor y Gweithlu a Diwylliant cyn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Yn dilyn sêl bendith y Bwrdd, mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd.

---

## Adolygu 2021 -22

---

### Trosolwg

Yn debyg i 2020-21, mae 2021-22 wedi parhau i gael ei gysgodi gan Bandemig Covid-19 parhaus ac achosion o'r amrywiolyn Omicron o fis Rhagfyr 2021 ymlaen yn arbennig. Rhoddodd hyn bwysau ar y bwrdd iechyd gydag absenoldebau staff mor uchel â 40% mewn rhai ardaloedd. Mae'r sefyllfa parhaus wedi ei gwneud hi'n anodd cynnal y gweithgareddau hynny sy'n ddibynnol ar bresenoldeb staff, fel archwilio neu hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae materion anuniongyrchol fel adleoli staff allweddol hefyd wedi amharu ar gynllunio o amgylch y Gymraeg.

Yn ogystal â'r pandemig mae'r bwrdd iechyd wedi gweld trosiant o staff cydymffurfio'r Gymraeg, gyda'r Rheolwr Gwasanaeth dros y Gymraeg a Chydraddoldeb ar y pryd yn symud ymlaen o fewn GIG Cymru ac yn cael eu disodli (hefyd o fewn GIG Cymru), gyda rhywfaint o aflonyddwch naturiol yn digwydd yn sgil hynny.

Mae'r aflonyddwch hwn wedi golygu na fu'n bosibl cyflawni'r holl gamau a fwriadwyd yn ystod 2021-22, gan gynnwys yr archwiliad mewnol arfaethedig o arwyddion a gohebiaeth, a sicrhau bod y fewnwyd yn cydymffurfio â'r safonau. Bydd y rhain yn cael sylw yn ystod 2022-23, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Ar nodyn mwy cadarnhaol fodd bynnag, mae ystod o gamau gweithredu wedi'u cyflawni fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, nad oedd llawer ohonynt yn rhan o'r cynllun gwaith gwreiddiol, yn hytrach wedi bod yn bosibl diolch i sgiliau'r tîm newydd neu gyfleoedd newydd yn codi.

Mae'r bwrdd iechyd yn hyderus bod gwaith yn cael ei wneud i barhau i ddarparu a gwella gwasanaethau yn Gymraeg, a'i fod yn cydymffurfio â'r safonau.

Mae'r tîm wedi mwynhau mwy o adnoddau nag a gafwyd yn y gorffennol gyda phenodiad Swyddog Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb i weithredu fel dirprwy adrannol a chefnogi'r ddau agenda. Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi penodi Cyfieithydd Cymraeg mewnol llawn amser am y tro cyntaf, sydd wedi cynyddu'r capasiti i gyfieithu yn ogystal â gwella cyflymder cynhyrchu. Arweiniodd benodiad y cyfieithydd at nifer o sylwadau cadarnhaol gan staff a chydnabyddiaeth eang ar draws y sefydliad, a rhoddwyd gwobr staff i'r unigolyn dan sylw yn ystod ei hail fis yn y swydd. Credwn fod cael cyfieithydd mewnol yn annog staff i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddwyieithog ac i wneud mwy o ddefnydd o gyfieithu drwy ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i'w ceisio.

---

## Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg

Cafodd cyfarfodydd Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg eu gohirio yn ystod y pandemig, ond ailddechreusant yng ngwanwyn 2022 er mwyn adolygu a monitro gweithrediad eu cynlluniau gweithredu'r Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i arweinwyr gwasanaethau godi materion ac i rannu diweddariadau, yn ogystal â thrafod goblygiadau newidiadau arfaethedig i bolisiau neu brosesau, neu ddatblygiadau fel cwynion neu ohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg.

---

## Rhwydweithiau Staff Cymraeg

Yn dilyn ystod o ddatganiadau o ddiddordeb, yn ystod 2021-22 sefydlwyd dau rwydwaith staff newydd yn BIAP drwy MS Teams sy'n caniatáu i staff rwydweithio, rhannu profiadau a chydweithio'n barhaus yn y Gymraeg. Mae'r cyntaf o'r rhwydweithiau hyn ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr uwch, a'r ail i'r rhai sydd â sgiliau iaith mwy sylfaenol. Fel cyflogwyr, mae natur ddaearyddol Powys yn gwneud cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn anodd ac felly rhagwelir y bydd y rhwydweithiau staff hyn yn aros ar-lein yn bennaf.

---

## Codi Ymwybyddiaeth a Digwyddiadau

Mae BIAP wedi parhau i hyrwyddo digwyddiadau a chyfleoedd codi ymwybyddiaeth fel Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (Mae Gen i Hawl) a Dydd Miwsig Cymru trwy lwyfannau megis y cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau staff newydd (gweler uchod) a'r cylchlythyr mewnol. Rhoddodd y Cwis dwyieithog ar Ddydd Gŵyl Dewi (mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Powys) gyfle pellach i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol mewn cyd-destun anffurfiol. Mae cyfleoedd i ddydsu'r iaith hefyd wedi parhau i gael eu hyrwyddo o fewn y bwrdd iechyd, yn ogystal â datblygiadau newydd (gweler 'Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg' isod) megis meddalwedd a rhyngwynebau Cymraeg sydd bellach ar gael.

Mae staff o dîm y Gymraeg wedi ymweld ag ysgolion uwchradd y sir i rannu pa mor bwysig yw sgiliau iaith Gymraeg i'r bwrdd iechyd.

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET)

Mae BIAP wedi parhau i arwain ar weithredu'r ddeddf hon ar sail gydweithredol ar draws BIAP, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae gofynion y ddeddf o ran y Gymraeg wedi cael eu hadeiladu ar ymateb y tri bwrdd iechyd i'r ddeddf o'r cychwyn. Datblygwyd teclyn i alluogi adrannau perthnasol i hunan-asesu a chofnodi eu gallu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg; bydd y wybodaeth yma wedyn yn cael ei storio'n ganolog fel bod ceisiadau am asesiadau neu ymyriadau eraill o dan y ddeddf, sydd eu hangen yn y Gymraeg, yn cael eu cyfeirio at dîm priodol. Yn ogystal â hyn, mae'r ystod lawn o ddeunyddiau hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r ddeddf ar gael yn y Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio yn ôl yr angen er mwyn cyflwyno hyfforddiant yn y Gymraeg, neu gellir eu cyrchu ar-lein fel dogfennau cyfeirio.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Yn dilyn adolygiad o weithdrefnau asesu effaith BIAP a gynhaliwyd yn 2020-21, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb BIAP newydd yn integreiddio effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau 69-78A. Fel rhan o'r broses mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu a chynnal sesiwn hyfforddi ar weithredu Asesiadau Effaith i nifer o grwpiau sy'n cwmpasu amrywiaeth o staff o wahanol adrannau.

Yn ogystal â'r swyddogaeth arfaethedig o hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw penderfyniadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae'r mecanwaith asesu hefyd yn ddefnyddiol i atgoffa staff o'u rhwymedigaethau dan safonau cyflenwi gwasanaethau, megis agweddau fel arwyddion.

## Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg

Mae penodi cyfieithydd Cymraeg mewnol, llawn amser i'r bwrdd iechyd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer ceisiadau cyfieithu. Erbyn diwedd 2021-22, roedd y galw am gyfieithu (oni bai am Swydd Ddisgrifiadau; gweler isod) pob mis rhwng pedair a chwe gwaith cymaint ag yr oedd ar ddechrau'r cyfnod. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd y gwasanaeth newydd yn gwneud y broses gyfieithu'n gyflymach ac yn fwy syml, yn ogystal ag ymdrechion parhaus i annog a hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth.

Derbyniwyd cryn dipyn o adborth cadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth newydd a derbyniodd ddeiliad y swydd wobr cyfraniad staff yn ystod ail fis ei swydd. Cred yn gryf bod cynnal y gwasanaeth hwn yn fewnol wedi bod yn llwyddiant. Mae hyn yn astudiaeth achos ddiddorol i sefydliadau eraill sy'n ystyried sefydlu gwasanaeth cyfieithu mewnol.

Mae meddalwedd cof cyfieithu wedi'i chaffael i ni gan BIAP, ac mae cytundeb wedi'i wneud bod BIAP yn rhannu cof cyfieithu gyda chydweithwyr GIG Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

## Cyfieithu Swydd Ddisgrifiadau


Gan weithio mewn partneriaeth rhwng tîm y Gymraeg, y tîm gwerthuso swyddi a chwmnïau cyfieithu allanol mae proses wedi'i rhoi ar waith lle mae pob swydd wag bellach yn cael ei hysbysebu, gan gynnwys y swydd ddisgrifiadau, yn gwbl ddwyieithog yn unol â Safon 107(a). Mae'r swydd ddisgrifiadau hyn bellach yn cyfrannu cyfran sylweddol o waith cyfieithu'r bwrdd iechyd.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi cael ei gydnabod gan Gomisiynydd y Gymraeg fel un sy'n arwain y sector yn y maes hwn, ac ym mis Tachwedd 2021 cafodd wahoddiad gan y comisiynydd i gyflwyno cyflwyniad i'n cyfoedion mewn byrddau iechyd eraill.

## Gwella Capasiti Dwyieithrwydd

### Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP (Safon 116)

O'r 31<sup>ain</sup> Mawrth 2022, nododd 2,494 aelod o staff yn BIAP bod eu gallu i siarad Cymraeg fel a ganlyn:



	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Anhysbys	885	554	333	911*	408	360
Lefel 0	556	846	1023	1077	1134	1136
Lefel 1	374	447	506	565	574	598
Lefel 2	87	117	126	151	153	162
Lefel 3	37	53	58	65	73	66
Lefel 4	35	45	48	58	62	64
Lefel 5	53	69	87	107	102	108

Gan ddiystyru'r anhysbys ac edrych ar y niferoedd fel canran, gellir gweld bod y ffigyrau hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol, sy'n awgrymu nad yw cyfran y sgiliau Cymraeg o fewn gweithlu BIAP wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf:

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Lefel 0	48.69%	53.65%	55.36%	53.24%	54.05%	53.23%
Lefel 1	32.75%	28.34%	27.38%	27.93%	27.36%	28.02%
Lefel 2	7.62%	7.42%	6.82%	7.46%	7.29%	7.59%
Lefel 3	3.24%	3.36%	3.14%	3.21%	3.48%	3.09%
Lefel 4	3.06%	2.85%	2.60%	2.87%	2.96%	3.00%
Lefel 5	4.64%	4.38%	4.71%	5.29%	4.86%	5.06%

(\* Mae'r cynnydd sylweddol dros dro yn yr adran 'anhysbys' yn 2019-20 yn debygol o adlewyrchu staff ar contractau dros dro yn gysylltiedig â Covid-19)

Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bydd angen gwella sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu er mwyn cydymffurfio â'r safonau'n well. Os yw'r bwrdd iechyd am fynd i'r afael â hyn bydd angen newid y dull recriwtio, gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar sgiliau Cymraeg o ran recriwtio (gweler Safon 106-109 isod), yn ogystal â hyfforddi.

Gweler "Symud Ymlaen" isod.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Yn ogystal â'r enghreifftiau uchod, mae'r canlynol yn rhoi manylion am gamau y mae BIAP wedi eu cymryd i sicrhau neu wella cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-22.

## Gohebiaeth Ysgrifenedig (Safon 17)


### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Creu gwasanaeth cyfieithu mewnol yn dilyn penodiad cyfieithydd Cymraeg llawn amser. Mae hyn wedi galluogi'r bwrdd iechyd i leihau amseroedd cynhyrchu cyfieithiad, gan hwyluso cydymffurfiaeth gydag ystod o safonau'n ymwneud â gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg.

Mae'r gwaith y mae ein cyfieithydd newydd wedi'i wneud yn cynnwys cyfieithu templed llythyrau safonol er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg yn rhagweithiol.

Mae rhan sylweddol o gyfathrebu'r bwrdd iechyd yn digwydd dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael ei reoli gan y tîm cyfathrebu. Mae gan y tîm siaradwr Cymraeg sy'n gallu sicrhau bod modd ateb unrhyw ohebiaeth a dderbynnir trwy'r cyfrwng hwnnw yn y Gymraeg heb yr angen am gyfieithu.

## Cyfieithu yn ôl Nifer Geiriau



Mae rhan sylweddol o gyfathrebu'r bwrdd iechyd yn digwydd dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael ei reoli gan y tîm cyfathrebu. Mae gan y tîm siaradwr Cymraeg sy'n gallu sicrhau bod modd ateb unrhyw ohebiaeth a dderbynnir trwy'r cyfrwng hwnnw yn y Gymraeg heb yr angen am gyfieithu.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei chyfieithu'n rhagweithiol yn ôl y galw a hybu hyfforddiant ymwybyddiaeth y Gymraeg er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ohebu â chleifion yn Gymraeg.

## Cyfarchion dros y Ffôn (Safonau 8 - 20)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Mae dogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr yn cynnwys gwybodaeth ar ddelio â siaradwyr Cymraeg dros y ffôn. Yn ogystal, datblygwyd canllaw ar wahân ar sut i ateb y ffôn yn ddwyieithog a delio â siaradwr Cymraeg ar y ffôn, sy'n cael ei hybu'n barhaus i staff ar draws y bwrdd iechyd. Ar hyn o bryd, wrth gysylltu â phrif linell gysylltu'r bwrdd iechyd mae'r defnyddiwr yn cael gwasanaeth Cymraeg diolch i sgiliau staff presennol.

Ni fydd hyn o reidrydd yn bosib ar gyfer yr holl wasanaethau yn unol â

Welsh Language Resource

Manager's Guidance & Resource

**Introduction**

This resource is intended to help you and your team understand the action you need take to comply with the new Welsh Language Standards for Powys THB. Please use this resource in team meetings to prompt discussions about the changes required within your team and to address any concerns that staff may have.

**What Are The Welsh Language Standards?**

The Welsh Language Standards are a set of legally binding requirements that aim to improve the bilingual services that the people of Wales can expect to receive from their Health Board. The Standards clearly set out what our responsibilities are in terms of providing bilingual services, ensuring the Welsh language is not treated any less favourably than the English.

dehongliadau diweddar o'r safonau fodd bynnag, oherwydd nifer gymharol isel o staff sy'n gallu delio ag ymholiadau yn y Gymraeg.

Mae cyfleoedd hyfforddi'n cael eu hyrwyddo i staff yn barhaus (gweler adran ar safonau 96-101), gan gynnwys cyfleoedd i staff ddatblygu sgiliau Cymraeg presennol a magu hyder.

Mewn cydweithrediad ag arweinwyr tîm Gwerthuso Swyddi mae'r bwrdd iechyd wedi ymgorffori'r gofyniad i asesu lefelau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swyddi gwag cyn hysbysebu'r swyddi.

Ymdrinnir â'r gofyniad hwn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi rheolwyr, ac mae tîm y Gymraeg ar gael i gefnogi gyda recriwtio (er enghraifft, lle nad oes modd asesu gallu Cymraeg ymgeiswyr yn fewnol yn eu tîm).

## → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i edrych ar ffyrdd lle gallwn gynyddu ein gweithlu dwyieithog a sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael drwy ein tîm y Gymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu ein gallu i gyrraedd y safonau hyn.

## Cyfarfodydd a digwyddiadau (Safonau 21-33)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Safonau 20-22 - Mae dogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr yn cynnwys gwybodaeth am gynnal cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd. Lle nad yw'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynychu cyfarfodydd, mae gan staff y gallu i gyrchu gwasanaethau dehongli, ac mae manylion y gwasanaethau dehongli sydd wedi'u cymeradwyo ar gael i staff ar y fewnwyd ac wedi'u hyrwyddo i staff.

Mae'r gofyniad i ddefnyddio Microsoft Teams fel meddalwedd fideogynadleda wedi bod yn broblemus oherwydd ni all gynnal swyddogaeth cyfieithu ar y pryd (mater sydd wedi codi ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru); fodd bynnag mae hyn bellach wedi cael sylw ar draws Cymru Gyfan ac yn y dyfodol bydd modd cefnogi cyfieithu ar y pryd gan ddefnyddio Teams.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth gan weithredu unrhyw newidiadau gofynnol yn dilyn diweddariadau i MS Teams a hyrwyddo'r swyddogaeth newydd.

Adnoddau'r Gymraeg  
Welsh Language Resources

Sut i ateb y ffon yn ddwyieithog  
How to answer the phone bilingually

Powys THB welcomes calls from Welsh speakers and staff must not treat the Welsh Language any less favourably than the English Language when providing a corporate greeting on the telephone.

- ✓ Use the following bilingual greetings depending on the time of day
  - Bore Da / Good Morning (Boar-eh Da)
  - Prynawn Da / Good Afternoon (Prin-hawn Da)
  - Noswaith Dda / Good Evening (Nass-why-th Tha)
- ✓ State the name of the organisation or hospital
  - Powys Teaching Health Board

## Cynadleddau Achos a Chleifion Mewnol (Safonau 23-25)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Rhoi trefniadau ar waith fel bod modd cofnodi dewis iaith cleifion drwy sawl sianel ar draws BIAP. Mae gan ein systemau electronig WPAS a WCCIS y gallu i gofnodi dewis iaith cleifion. Mae llawer o'n ffurflenni atgyfeirio defnyddwyr i wasanaeth hefyd yn gofyn i gleifion am eu dewis iaith.

Mae'r gallu i fodloni'r safonau hyn yn ymarferol yn ymwneud yn bennaf â'r gweithlu dwyieithog (gweler uchod).

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i hybu'r angen i gofnodi dewis iaith cleifion ar systemau a ffurflenni atgyfeirio yn sesiwn Ymwybyddiaeth y Gymraeg i staff. Byddwn hefyd yn parhau i edrych ar ffyrdd ble gallwn gynyddu ein gweithlu dwyieithog a sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael drwy ein tîm y Gymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu ein gallu i gyrraedd y safonau hyn.

## Cyfarfodydd a Digwyddiadau sydd ar agor i'r cyhoedd (Safonau 26-32)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Addasu ein harferion wrth i'r Pandemig parhaus atal pob cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb yn ystod 2021-22. Roedd hyn yn golygu bod angen defnyddio llwyfannau ar-lein. Mae gan y tîm Cyfathrebu gapasiti Cymraeg sy'n gallu hwyluso derbyn ac ymateb i gwestiynau ysgrifenedig a sylwadau yn Gymraeg. Yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2021-22 (a gynhaliwyd ar-lein), roedd system ar waith i alluogi'r cyhoedd i ofyn cwestiynau yn Gymraeg, a darparwyd yr holl wybodaeth yn ddwyieithog.

Mae canllawiau gweithdrefnol 'Y Gymraeg - Cyfathrebu a Marchnata' sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r Safonau wrth drefnu cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd yn parhau i gael eu cynnig i reolwyr a staff o fewn eu timau.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth gan weithredu unrhyw newidiadau gofynnol yn dilyn diweddariadau i MS Teams a hyrwyddo'r swyddogaeth newydd.

Cyhoedduswyd a hysbysebu, arddangos deunydd yn gyhoeddus, cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni (Safonau 33-38; Safonau 111-113).

## → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Creu canllawiau megis Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr a'r Canllawiau Cyfathrebu a Marchnata. Gwnaethom sicrhau bod yr angen i arwyddion gydymffurfio wedi eu hymgorffori yn hyfforddiant Ymwybyddiaeth y Gymraeg. Drwy'r grŵp o arweinwyr gwasanaethau, gofynnwyd i Reolwyr roi sylw penodol i'r gofyniad hwn. Mae sicrhau bod gwybodaeth weledol yn Gymraeg yn rhan bwysig o gyflwyno'r bwrdd iechyd fel sefydliad dwyieithog ac wrth drin defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg gyda pharch; mae darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg yn arbennig o bwysig lle nad yw staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Mae cyfyngiadau ar staff sy'n mynychu safleoedd wedi cyfyngu ar allu staff cydymffurfio'r Gymraeg i archwilio gwybodaeth sy'n cael ei harddangos yn gyhoeddus yn uniongyrchol.

## → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Archwilio'r defnydd o weithdrefnau'r Archwiliad Mewnol i wella cydymffurfiaeth yn systematig. Os yw cyfyngiadau'n caniatáu, gallai staff cydymffurfio'r Gymraeg gynnal archwiliad/asesiad wyneb yn wyneb o safleoedd. Byddwn yn datblygu cwrs hyfforddi 'Cymraeg i Reolwyr' i bwysleisio'r gofyn hwn.

## Y Wefan, Apiau a Chyfryngau Cymdeithasol (Safonau 39-46)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Dylunio ein gwefan newydd i fod yn ddwyieithog o'r cychwyn. Nododd ymarfer archwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg fod nifer fach o achosion o ddiffyg cydymffurfio, yn bennaf ynghylch gwybodaeth Covid-19. Mae'r staff sy'n gyfrifol am y meysydd hyn wedi cael gwybod am eu cyfrifoldebau ac mae materion diffyg cydymffurfio wedi cael eu cywiro.

Nid yw'r bwrdd iechyd yn rheoli unrhyw apiau yn uniongyrchol. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi adborth i sicrhau bod Ap GIG Cymru Gyfan (sy'n dal i gael ei ddatblygu) yn cydymffurfio'n llwyr.

Ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'r Bwrdd Iechyd yn postio'n ddwyieithog o gyfrifon sengl ar bob platfform. Credwn mai dyma'r dull gorau o gydymffurfio gan ei fod yn rhoi'r amlygrwydd mwyaf posibl i'r Gymraeg ac yn pwysleisio ein statws fel sefydliad dwyieithog. Ail-enwyd y grŵp Facebook er mwyn rhoi teitl dwyieithog iddo yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Rheolir yr elfennau hyn gan y tîm cyfathrebu sydd â sgiliau iaith Gymraeg o fewn eu tîm. Mae BIAP yn hyderus bod ei wefan a'i bresenoldeb ar-lein yn cydymffurfio'n llwyr o fewn y safonau.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Wrth i'r wefan newydd ehangu a datblygu, byddwn yn parhau i sicrhau bod pob tudalen ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## Derbyn Ymwelwyr (Safonau 50-53)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Sicrhau bod bathodynau, cortynnau gwddf, a phosteri ar gael ac yn cael eu hysbysebu ar gyfer staff y brif dderbynfa i helpu adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae hyfforddiant a chyfleoedd dysgu Cymraeg hefyd wedi'u hyrwyddo ymhlith staff y dderbynfa. Mae'r gofyniad i asesu swyddi gwag ar gyfer eu sgiliau Cymraeg wedi ei ymgorffori yn y rhaglen hyfforddi i reolwyr. Ceir disgrifiad mwy holistaidd o'r sefyllfa bresennol o ran y gweithlu Cymraeg uchod.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i edrych ar ffyrdd lle gallwn gynyddu ein gweithlu dwyieithog a sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael drwy ein tîm Cymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn cynyddu ein gallu i gyrraedd y safonau hyn.

## Dyfarnu grantiau a chontractau (Safonau 54- 59)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Nid ydym yn dyfarnu grantiau ond mae contractau yn cael eu hysbysebu a'u dyfarnu yn unol â gofynion y Safonau. Mae'r broses hon yn cael ei rheoli'n ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae dogfennau gweithdrefnol comisiynu a chontractau mewnol BIAP yn cynnwys canllawiau a gwybodaeth sy'n galluogi'r bwrdd iechyd i gydymffurfio â'r safonau hyn.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio os yw'r gweithdrefnau presennol yn newid.

## Hybu Gwasanaethau Cymraeg (Safonau 60- 61)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Darparu'r staff gydag, a'u hannog i wisgo, cortynnau gwddf/bathodynau/gwisgoedd â brodwaith Iaith Gwaith i hysbysebu eu sgiliau Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Fel y nodwyd uchod wrth drafod cyfryngau cymdeithasol, mae BIAP yn credu bod cyfrifon sengl sy'n ddwyieithog yn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr y gwasanaeth bod y sefydliad yn cymryd y Gymraeg o ddifrif ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar-lein.

## → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau o weithdrefnau/canllawiau yn ystyried gofynion Safonau 60- 61 a sicrhau bod unrhyw wasanaeth newydd ar gael yn Gymraeg ac yn cael eu hyrwyddo'n briodol yn unol â'r safonau hyn. Unwaith y bydd y gwasanaeth SilverCloud (gweler isod) ar gael yn Gymraeg byddwn yn hyrwyddo hyn yn eang.

### Cyrsiau Addysg (Safon 63)

## → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Trefnu i gyfieithu'r holl ddeunyddiau addysg sy'n ymwneud â Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl cynnal asesiadau unigol yn y Gymraeg ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau wedi eu lleoli mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Y Bwrdd Iechyd sy'n cynnal gwasanaeth SilverCloud GIG Cymru Gyfan, llwyfan Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) ar-lein newydd ar gyfer materion iechyd meddwl ysgafn i gymedrol megis iselder, gorbryder, straen, ac ati. Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu cael gafael ar gwrs o adnoddau CBT yn ogystal â cheisio cymorth gan weithiwr iechyd meddwl ar-lein. Mae'r gwasanaeth hwn felly'n gwrs addysgol ac yn wasanaeth clinigol. Mae'r gwasanaeth wedi ei gynllunio gyda'r Gymraeg mewn golwg, a'r uchelgais yw gallu cynnig y gwasanaeth hwn drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2022-23.

## → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael cynnig y cyfle rhagweithiol i ofyn am hyfforddiant yn Gymraeg, a sicrhau bod unrhyw gyrsiau hyfforddi newydd yn ystyried yr angen i asesu lefel y galw am gyrsiau Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod modd cynnig y gwasanaeth SilverCloud yn Gymraeg; bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfuniad o gyfieithu deunyddiau a recriwtio gweithwyr proffesiynol Cymraeg sy'n gallu rheoli'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg.

### Systemau sy'n gwneud Cyhoeddiadau wedi'u Recordio (Safon 64; Safon 114)

## → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Nid oedd gennym unrhyw systemau sy'n gwneud cyhoeddiadau i'r cyhoedd ar waith ar unrhyw un o'n safleoedd yn ystod 2021-22 nac unrhyw system sy'n gwneud cyhoeddiadau wedi'u recordio yn y gweithle.

## → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i adolygu hyn ond nid oes unrhyw gynlluniau cyfredol i osod systemau cyhoeddiadau ar unrhyw safle BIAP yn ystod 2022/23. Fodd bynnag os yw'r sefyllfa hon yn newid bydd BIAP yn sicrhau bod unrhyw systemau'n cael eu gosod yn unol â'r safonau hyn.

### Gofal Sylfaenol (Safonau 65-68)

## → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Sicrhau bod y gwasanaeth cyfieithu mewnol newydd yn cael ei gynnig i ddarparwyr gofal sylfaenol yn ôl Safon 66 ynghyd â chyfle i archebu bathodynau / cortynnau gwddf gyda logo 'Taith Gwaith' yn rhad ac am ddim, gyda nifer o leoliadau yn ceisio'r adnoddau hyn. Mae hyn wedi cynyddu gwelededd darpariaeth y Gymraeg mewn gofal sylfaenol.

Roedd cynllun yn ei le i sicrhau bod gwybodaeth am ddarparwyr Gofal Sylfaenol a oedd yn gallu cynnig gwasanaethau yn y Gymraeg ar y wefan, ond cafodd hyn ei ohirio oherwydd y wefan newydd ac oherwydd salwch ac adleoli yn y tîm Gofal Sylfaenol. Byddwn yn ceisio cwblhau hyn yn 2022/23.

## → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Datblygu proses i sicrhau bod y wybodaeth am ddarparwyr Gofal Sylfaenol ar wefan BIAP (Safon 65) yn cael ei darparu, a'i chynnal.

## Safonau Llunio Polisi

### Gwneud Penderfyniadau (Safonau 69-78A)

#### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Parhau i sicrhau bod asesu penderfyniadau polisi ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg yn digwydd fel rhan o broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb ehangach y Bwrdd Iechyd (o hyn allan yn EIA).

Yn ystod 2021-22, cyflwynwyd cyfanswm o 3 sesiwn hyfforddi ar gynnal EIA. Mae'r sesiwn hyfforddi a'r templed corfforaethol yn ymdrin â'r gofynion dan Safonau'r Gymraeg. Oherwydd bod y swyddogaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg o fewn BIAP yn cael eu rheoli gan yr un aelodau o staff, atgyfnerthir y gofyniad i asesu polisïau a datblygiadau ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses ehangach hon. Caiff holl sesiynau hyfforddi EIA eu darparu gan unigolyn/unigolion gyda phrofiad o Gydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg.

**What do I need to consider? (5/6)**

**Welsh Language**  
The Policy or Project must should not have negative effects and ideally will have positive effects on

- 1) Opportunities to use the Welsh Language
- 2) Treating the Welsh Language less favourably than English

**Questions to ask:**  
What provision have you made for Welsh?  
Will Welsh versions be distributed with English materials?  
Will it be easier for people to receive services in Welsh?  
If the service is new, how will you offer it in Welsh?

11 Equality Impact Assessment Training

Mae rhagor o wybodaeth am broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb y bwrdd iechyd ar gael yn Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb BIAP 2021-22.

#### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i fonitro Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer tystiolaeth bod y safon hon wedi ei chyrraedd.

## Safonau Gweithredu

### Polisi ar ddefnydd mewnol y Gymraeg (Safon 79)

#### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Hybu dogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr fel polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, sydd ar gael ar y fewnwyd. Anogir y defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â hyrwyddo hyfforddiant iaith Gymraeg i'r rhai sy'n dymuno dysgu neu wella eu sgiliau iaith.

#### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Adolygu'r ddogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr er mwyn asesu ei haddasrwydd ar gyfer gofynion Safon 79.

### Dogfennau Cyflogaeth (Safonau 80- 81)

#### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Sicrhau bod fersiynau Cymraeg o ddogfennau (lle maent yn bodoli) ar gael ochr yn ochr ag unrhyw fersiynau Saesneg. Cynhaliwyd hyn fel rhan o gyflwyniad parhaus mewnwyd newydd y bwrdd iechyd ac mae'n galluogi siaradwyr Cymraeg i gwblhau dogfennaeth safonol e.e. adolygiadau perfformiad yn y Gymraeg os dymunir; mae hyn yn digwydd mewn rhai rhannau o'r sefydliad e.e. o fewn tîm y Gymraeg.

O ganlyniad i'r diweddariadau i ESR a gyflwynwyd i staff BIAP ar 5 Ionawr 2022, mae'r bwrdd iechyd nawr yn cydymffurfio â Safon 81 am y tro cyntaf mewn perthynas ag ESR. Mae'r newidiadau hyn wedi eu hamlygu a'u hyrwyddo ymhlith staff ac maent yn caniatáu i staff gwblhau tasgau megis archebu Gwyliau Blynyddol trwy ryngwyneb Cymraeg.

#### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael yn yr un lle â'r fersiynau Saesneg ar y fewnwyd (yn amodol ar gwblhau cyflwyno mewnwyd).

## Polisiau Gweithredol (Safon 82)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Mae rhai o'r polisiau dan sylw Safon 82 wedi'u cyhoeddi yn ddwyieithog gan eu bod yn bolisiau Cymru Gyfan. Fodd bynnag, cyn 2021-22 roedd y rhan fwyaf o bolisiau'r gweithlu a gynhyrchwyd yn fewnol ym Mhowys ar gael yn Saesneg yn unig. Mae cynllun gwaith wedi ei ddatblygu a'i roi ar waith i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu mewnol newydd i sicrhau bod y polisiau yma i gyd ar gael yn y Gymraeg dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Sicrhau bod pob polisi sy'n berthnasol i'r safon yn y dyfodol naill ai wedi'u drafftio yn Gymraeg/ yn ddwyieithog neu wedi'u cyfieithu, a rhoi system ar waith i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir yn cael eu hadlewyrchu ym mhob fersiwn o'r polisi.

## Defnyddio'r Gymraeg mewn Gweithdrefnau Disgyblu a Chwynion (Safonau 83-88)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Mae polisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gyfer delio â chwynion a chymau disgyblu ynglŷn â staff, yn ddwyieithog. Mae systemau ar waith i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a dehonglydd proffesiynol annibynnol i gynorthwyo staff sydd am ddefnyddio'r Gymraeg os nad yw'n briodol neu'n bosib i aelod sy'n siarad Cymraeg o'r Tîm AD ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:


Parhau i fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau hyn er mwyn sicrhau cydraddoldeb i'n staff sy'n siarad Cymraeg.

## Meddalwedd a Rhyngwynebau Dwyieithog (Safon 89)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Ers yr 8<sup>fed</sup> Rhagfyr 2021, mae meddalwedd cyfrifiadurol dwyieithog Cysgliad ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg wedi bod ar gael i holl staff BIAP:


Mae rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer Office ac ar gyfer Windows hefyd wedi bod ar gael i staff o'r 7<sup>fed</sup> Ionawr 2022.



Er nad yw'n ddatblygiad dan arweiniad BIAP, mae diweddariad ESR a gwblhawyd ar 5<sup>ed</sup> Ionawr 2022 hefyd wedi galluogi defnyddio'r system honno gyda rhyngwyneb Cymraeg.

Mae'r holl ddatblygiadau hyn wedi'u hyrwyddo'n fewnol, gyda chanllawiau wedi'u cyhoeddi ar fewnwyd BIAP ar sut i'w gosod.

Diolch i'r datblygiadau hyn mae bellach yn bosibl i staff, nad oes angen defnyddio systemau clinigol, weithio'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg o ran rhyngwynebau eu system gyfrifiadurol. Mae darpariaeth Cysgliad yn galluogi staff i wirio eu gramadeg a sillafu wrth ddefnyddio'r Gymraeg, gan wella eu hyder er enghraifft wrth ymdrin ag ymholiadau Cymraeg.



### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i ymgysylltu ag Arweinydd TGCh i archwilio'r posibilrwydd o alluogi'r feddalwedd ychwanegol ar CySill ar gyfer Microsoft Office, sy'n galluogi defnyddio Cysgliad heb orfod agor ail raglen.

---

## Mewnrwyd (Safonau 90-95)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Parhau i wneud cynnydd gyda chau ein safle fewnrwyd BIAP presennol a'i ddisodli gyda'r system newydd ar Sharepoint. Bydd hyn yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau, fodd bynnag oherwydd oedi parhaus gyda chyflwyno'r system mae'r fewnrwyd bresennol yn dal i gael ei ddefnyddio ar ddiwedd 2021-22.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Bydd y fewnrwyd ar Sharepoint yn cael ei sefydlu dros 2022-23 a byddwn yn sicrhau bod y fewnrwyd newydd hon yn cydymffurfio'n llwyr â'r safonau perthnasol.

---

## Sgiliau a hyfforddiant y Gymraeg i staff (Safonau 96-101)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

(Gweler yr adran flaenorol am gyfrifoldebau adrodd).

Hybu dysgu'r Gymraeg a'i gefnogi'n ariannol yn unol â'r safonau. Er gwaethaf y pwysau staffio o ganlyniad i'r Pandemig mae'r nifer sy'n eu defnyddio wedi parhau'n debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda 19 datganiad o ddiddordeb (+1 o'i gymharu â 2020-21) a 12 yn cwblhau rhyw fath o hyfforddiant (+/- 0).

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i hyrwyddo opsiynau hyfforddi presennol a newydd i staff ar draws BIAP.

---

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safonau 102-103)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Diweddarau hyfforddiant Ymwybyddiaeth y Gymraeg a pharhau i gynnig hyn i'r holl staff. Mae'r nifer sy'n manteisio wedi bod yn isel, efallai oherwydd staffio a phwysau eraill a achoswyd gan y pandemig ond hefyd amserlenni hyfforddi prysur, cyd-destun lle mae'n anodd hyrwyddo cwrs nad yw'n orfodol.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, yn ystod 2021/22 cyflwynodd BIAP adran Ymwybyddiaeth y Gymraeg fel rhan o'i Raglen Cynefino am y tro cyntaf, sy'n golygu bod pob aelod newydd bellach yn derbyn gwybodaeth am gyd-destun hanesyddol yr iaith, ac ar y safonau (yn unol â Safon 103).

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Mae BIAP yn bwriadu ailedrych ar y cysyniad o hyfforddiant ymwybyddiaeth fel rhan o adolygiad sgiliau dwyieithog yn 2022-23.

---

## Adnabod y Staff sy'n Siarad Cymraeg (Safonau 104-105)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Sicrhau bod bathodynau a chortynnau gwddf (Iaith Gwaith) ar gael i'r holl staff er mwyn adnabod staff sy'n siarad Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Mae hyn yn galluogi cleifion i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwydd ac yn cynyddu eu hyder yng ngallu'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae templed llofnod e-bost dwyieithog ar gael ar dudalen fewnrwyd adnoddau Cymraeg a hefyd yn y ddogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr. Mae mwyafrif y staff yn defnyddio llofnod dwyieithog.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau Iaith Gwaith a llofnodion dwyieithog, a pharhau i'w gwneud yn ein proses gynefino (gweler uchod).

---

## Recriwtio (Safonau 106-109; Safon 117)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Parhaodd ein gwaith o weithredu gweithdrefnau cymeradwyo swyddi gwag newydd a gychwynwyd yn 2019-2020. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddilyn cyfres gadarn o weithdrefnau i sicrhau tegwch i'r Gymraeg yn y broses recriwtio. Cafodd y bwrdd iechyd ei gydnabod a'i ganmol gan Gomisiynydd y Gymraeg am ein dull, sy'n arwain y sector, yn Safon 107A yn benodol (sy'n yn mynnu bod swydd ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg). Hysbysebwr pob swydd wag gan gydymffurfio'n llawn â Safonau 106A, 107, 107A, 107B, 108 a 109.

Yn ystod 2021-2022 hysbysebodd BIAP 1,040 o swyddi gwag:

- Cafodd 3 swydd eu hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- Cafodd 922 swydd eu hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn ddymunol.
- Cafodd 115 o swyddi eu hysbysebu lle nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg.

Y swyddi a hysbysebwr â sgiliau Cymraeg fel gofyniad hanfodol oedd Cyfieithydd Cymraeg, Swyddog y Gymraeg a Chydraddoldeb a Rheolwr Gwella Gwasanaeth y Gymraeg a Chydraddoldeb.

Er bod y ffigyrau uchod yn cynrychioli cynnydd o'r flwyddyn flaenorol, mae'r ffaith fod pob swydd wag hanfodol Gymraeg yn y tîm Cymraeg yn awgrymu nad yw staff ar draws y sefydliad ehangach yn defnyddio'r modd sydd ar gael iddynt er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i weithio i'r sefydliad. Mae hysbysebu swyddi gwag gyda gofyniad Cymraeg hanfodol yn parhau i fod yn hynod o isel ac yn cael ei gynrychioli'n anghymesur gan swyddi gwag o fewn tîm y Gymraeg.

Cynhaliwyd archwiliad o achosion recriwtio yn ddiweddar a chanfuwyd bod gwybodaeth a gwaith gweithredu fframweithiau recriwtio presennol yn y sefydliad yn anghyson. Mae sicrhau bod y systemau hyn yn addas i'r diben ac yn gweithio yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Datblygu cynllun gweithredu newydd i annog cynnydd mewn nifer ac amrywiaeth y swyddi sy'n cael eu hysbysebu fel rhai sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg.

Monitro a hyrwyddo'r defnydd o'r offeryn asesu sgiliau presennol i reolwyr recriwtio ar draws y bwrdd iechyd, ac os oes angen, ei ddiwygio neu ei newid.

## Cynllun ar gyfer ymgynghoriadau clinigol dwyieithog (Safonau 110- 110A)

### → Yn 2021/22 gwnaethom y canlynol:

Cyhoeddi ein cynllun ar wefan y bwrdd iechyd a gellir ei gyrchu [yma](#) (caiff ei ddiweddarau'n flynyddol). Mae effaith y pandemig wedi rhwystro'r gwaith o hybu a gweithredu'r cynllun, ond mae cynnydd wedi'i wneud yn erbyn yr amcanion allweddol, yn enwedig ynghylch gweithdrefnau recriwtio, cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, a nodi a chofnodi dewis iaith cleifion.

### → Yn 2022/23 byddwn yn gwneud y canlynol:

Cydnabod mai mater o'r gweithlu dwyieithog (gweler uchod) yw'r safon hon yn bennaf a bydd ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r elfen hon o'n gweithgarwch yn berthnasol i'r safon hon.

## Pryderon a Chwynion (Safon 115)

Yn ystod 2021-2022, ni dderbyniodd BIAP unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae BIAP yn parhau i ddilyn yr amodau a nodir yn y polisi 'Gweithio i Wella' GIG Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddelio â chwynion a wnaed yn Gymraeg ac ynglŷn â darpariaeth Gymraeg. Gallwch weld copïau o'r dogfennau hyn [yma](#).

Yn ystod 2021-2022, derbyniodd BIAP y cwynion anffurfiol canlynol mewn perthynas â'i gydymffurfiaeth â'r safonau:

**Tachwedd 2021** - Neges Ffôn ar gyfer Canolfan Brechu Torfol yn darparu cyfarchiad yn unig yn Gymraeg ac fel arall roedd yn uniaith Saesneg (Safon 20).

- Tynnwyd sylw at y mater gyda'r tîm dan sylw, a datryswyd y mater er boddhad y gohebydd.

**Rhagfyr 2021** - Arwyddion yn Saesneg yn unig yng Nghanolfan Brechu Torfol (Safon 47).

- Tynnwyd sylw at y mater gyda'r tîm dan sylw, a datryswyd y mater er boddhad y gohebydd.

**Ionawr 2022** - Neges destun uniaith Saesneg gan wasanaeth Tracio ac Orlhain Covid-19 (Derbyniwyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg) (Safon 5)

- Daeth i'r amlwg nad oedd y neges destun dan sylw yn tarddu o BIAP, ond yn system Tracio ac Orlhain ledled y DU. Cafodd y Comisiynydd wybod am hyn er mwyn trosglwyddo i'r achwynydd, ac ni dderbyniwyd gohebiaeth ddilynol mewn perthynas â'r mater.

**Ionawr 2022** - Y Gymraeg ar ddau arwydd yn Ysbyty Aberhonddu yn anghywir (Safon 49).

- Roedd yr unigolyn a dynnodd sylw'r tîm at hyn wedi rhannu lluniau fel tystiolaeth ar gyfer un arwydd â Chymraeg ansafonol ac un arall a oedd yn anghywir. Cafodd y ddwy achos eu trosglwyddo i'r Adran Ystadau i'w newid.

Yn ogystal, er nad yw'n cwyn fel y cyfryw, tynnodd cynrychiolydd o Gomisiynydd y Gymraeg sylw at nifer o ddogfennau ar y wefan nad oedd ar gael yn Gymraeg. Roedd pob un o'r dogfennau hyn naill wedi cael eu darparu mewn fersiwn Gymraeg wedi hynny ac maent bellach ar gael ar y wefan, neu esboniad a ddarparwyd dan Safon 36 am pam nad oedd y ddogfen ar gael yn Gymraeg.

## Symud Ymlaen

Yr ardal darged sylfaenol ar gyfer 2022-2023 yw gweithredu er mwyn mynd i'r afael â diffyg cynnydd o ran sgiliau Cymraeg gweithlu BIAP. Yn ganolog o ran cyflawni hyn bydd annog rheolwyr recriwtio i fanteisio ar gyfleoedd i hysbysebu swyddi gwag sydd â sgiliau Cymraeg yn hanfodol, a nodi'r rhwystrau sy'n atal staff rhag manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant, ac a oes modd mynd i'r afael â'r rhain.

Gyda disgwyl y bydd mewnwyd newydd y Bwrdd Iechyd ar waith yn ystod chwarter cyntaf 2022-23, mae tîm y Gymraeg yn gobeithio cynnig casgliad cynhwysfawr o adnoddau i staff a fydd yn welliant o'r hyn a oedd ar gael yn y gorffennol.

Mae'r datganiadau 'Camau Arfaethedig yn ystod 2022-23' a nodwyd uchod yn dangos ein hymrwymiad i ddechrau ar fesurau gwella pellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Am fwy o wybodaeth ar fanylion yr adroddiad hwn ac am ragor o wybodaeth am sut mae BIAP yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â thîm y Gymraeg a Chydraddoldeb drwy anfon e-bost at [powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk](mailto:powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk).



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board





GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys  
Powys Teaching  
Health Board

Tîm Ymgysylltu a Chyfathrebu BIAP Mawrth 2020